Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y Gymraeg 2015/16** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B 27.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ashleigh Dunn |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Lyn Williams |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad / Craffu / Datblygu / Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | • Dylai'r Bwrdd gymeradwyo Adroddiad Blynyddol ynghylch y Gymraeg 2015/16 i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg<br>• Dylai'r Bwrdd gymeradwyo ein hymateb i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch yr Hysbysiad Cydymffurfio Drafft yng nghyswllt Safonau'r Gymraeg |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Ystyried yr hirdymor:**<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br><br>**Gweithredu mewn modd integredig:**<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br>Y gallu i gynnig dewis iaith wrth ymdrin â'r cyhoedd. Trin y Saesneg a'r Gymraeg yn gyfartal yn ein gwaith. |

| | |
|---|---|
| | **Gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>:**<br>Sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaeth Cymraeg ym mhob un o'n meysydd gwaith<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:**<br>Mae darparu gwasanaeth dwyieithog yn enghraifft o arfer da, lle gall pobl fynegi eu barn yn well yn eu dewis iaith |

**<u>Mater</u>**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cynnydd a wnaed o ran ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2015-16 a chymeradwyo ein Hadroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

2. Rhoi gwybod i'r Bwrdd am yr Hysbysiad Cydymffurfio Drafft yng nghyswllt Safonau'r Gymraeg, a gafwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, a chymeradwyo ein hymateb i'r trefniadau ymgynghori gan gynnwys ein cyfle i apelio yn erbyn yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn afresymol a/neu'n anghymesur yn yr Hysbysiad.

**<u>Cefndir</u>**

3. Mae Cynllun Iaith Gymraeg Cyfoeth Naturiol Cymru yn bolisi corfforaethol a ddatblygwyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Cynllun yn egluro'r modd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae wedi bod ar waith ers 1 Ebrill 2013 a bydd yn parhau ar waith nes y bydd Safonau newydd y Gymraeg yn disodli'r Cynllun ym mis Ionawr 2017.

4. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol y mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd i gydymffurfio ag ef. Mae'r Safonau yn rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg ynghylch y gwasanaethau Cymraeg y gallant ddisgwyl eu cael gan sefydliadau cyhoeddus. Bydd y gyfres gyntaf o Safonau yn dod i rym ar ein cyfer ni ym mis Ionawr 2017.

**<u>Asesiad</u>**

**Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y Gymraeg 2015/16 (Atodiad 1)**

5. Mae gennym ddyletswydd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i lunio Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y cynnydd a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn o ran gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg, a chyflwyno'r adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg erbyn mis Gorffennaf 2016. Mae'r adroddiad yn nodi'r gwaith yr ydym wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a chynyddu'r cyfleoedd i'n pobl weithio'n ddwyieithog, ac mae'n adrodd yn ôl ynghylch targedau penodol y mae'r Comisiynydd wedi gofyn amdanynt.

    **Y prif uchafbwyntiau ar gyfer Adroddiad 2015/16:**

    - Ym mis Hydref 2015, gofynnwyd i'r staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a'u cofnodi yn MyNRW. Roedd hynny wedi ein galluogi i lunio

adroddiadau ynghylch sgiliau a lefelau Cymraeg. Mae hyn yn ymrwymiad yn ein Cynllun ac yn gam cyntaf o safbwynt gweithredu ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn llawn. Hyd yn hyn, mae 74.6% o'n staff (1502) wedi asesu eu sgiliau a'u cofnodi yn MyNRW. Bydd angen i ni annog pawb i gwblhau'r ymarfer hwn, gan fod hynny hefyd yn ymrwymiad yn y Safonau sydd ar ddod.

- Hyd yn hyn, mae 24.5% o'n staff wedi nodi mewn hunanasesiad eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl, a'n targed yw sicrhau bod 30% o'n staff yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus erbyn 2018.
- Nodir llwyddiant ein rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg, sydd wedi cynorthwyo 244 o aelodau o staff i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg at ddibenion gwaith.
- Ym mis Hydref 2015, bu i ni ennill Gwobr Gweithle Cymraeg y Flwyddyn gan Brifysgol Caerdydd am y cymorth yr ydym yn ei roi i'n staff i ddysgu Cymraeg. Enillodd aelod o'n staff wobr Dysgwr y Flwyddyn gan Goleg Gwent am ei ymrwymiad i ddysgu Cymraeg.
- Mae'r adran TGCh wedi datblygu desg wasanaethau ddwyieithog, sy'n cynnig dewis iaith i'r staff wrth drafod problemau TGCh.
- Gwaith ar adnodd cyfieithu newydd a fydd yn galluogi rhagor o'n staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig, a lleihau'r ddibyniaeth ar ein Tîm Cyfieithu.
- Mae'r timau Cyfathrebu a TGCh wedi bod yn cydweithio i ddatblygu gwasanaeth dwyieithog newydd ar-lein i rybuddio ynghylch llifogydd.
- Mae cyfrifon dwyieithog ychwanegol wedi'u datblygu ar gyfryngau cymdeithasol, er enghraifft Coed y Brenin @WardenCadair a Sian Williams.
- Mae gwaith wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf i baratoi'r sefydliad ar gyfer Safonau'r Gymraeg sydd ar ddod, gan godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'i ofynion yn rheolaidd drwy ein sianelau cyfathrebu arferol.
- Mae'r Tîm Caffael wedi cyhoeddi telerau ac amodau contract safonol ar y wefan allanol, ac mae'r telerau a'r amodau yn cynnwys ystyriaethau ynghylch y Gymraeg.
- Yn dilyn y llifogydd a ddigwyddodd ym mis Rhagfyr 2015, roeddem yn falch iawn o gael ebost gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth dwyieithog yr oeddem wedi'i ddarparu. Roedd y sawl dan sylw wedi cael rhywfaint o dawelwch meddwl o allu siarad ei ddewis iaith ar adeg anodd iawn.

**Hysbysiad Cydymffurfio Drafft yng nghyswllt Safonau'r Gymraeg**

6. Daeth yr Hysbysiad Cydymffurfio Drafft yng nghyswllt Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru i law ar 31 Mawrth 2016. Mae'r Safonau wedi'u drafftio yn dilyn ymchwiliad a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Chwefror 2015. Lluniodd Comisiynydd y Gymraeg Adroddiad Safonau a oedd yn amlinellu casgliadau'r ymchwiliad, at sylw Gweinidogion Cymru ym mis Mai 2015.

7. Cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 yng nghyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol ar 9 Chwefror 2016, a daethant i rym ar 16 Chwefror 2016. Roedd hynny'n awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i gyflwyno

Hysbysiadau Cydymffurfio sy'n mynnu bod sefydliadau'n cydymffurfio ag un neu ragor o safonau.

8. Cynhelir cyfnod ymgynghori'n awr ynghylch yr Hysbysiad Cydymffurfio Drafft, a ddechreuodd ar 31 Mawrth 2016 ac a fydd yn dod i ben ar 26 Mai 2016. Ceir dwy ran i'r ymgynghoriad: mae'r rhan gyntaf yn cynnwys sylwadau lle mae'r Comisiynydd yn dymuno cael gwybodaeth neu dystiolaeth bellach gennym ynghylch safonau penodol; mae ail ran y ffurflen yn cynnig cyfle i ni nodi a ydym o'r farn bod un neu ragor o'r safonau sydd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio Drafft yn afresymol a/neu'n anghymesur. Dylid cyflwyno rhesymau a thystiolaeth ategol i gadarnhau ein rhesymau.

9. Disgwylir i Hysbysiadau Cydymffurfio Terfynol gael eu cyflwyno ddiwedd mis Gorffennaf 2016, a disgwylir i'r gyfres gyntaf o Safonau ddod i fodolaeth ym mis Ionawr 2017 gan ddisodli ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol.

10. Bydd y Comisiynydd yn rheoleiddio i ba raddau y cydymffurfir â'r Safonau drwy wneud y canlynol:
    - ymchwilio i unrhyw gŵyn a ddaw i law
    - cynnal ymarferion cwsmer cudd ac arolygon defnyddwyr heb rybudd o flaen llaw
    - cynnal astudiaethau thematig ynghylch grwpiau o Safonau
    - adborth ynghylch ein Hadroddiad Blynyddol
    - cyhoeddi codau ymarfer.

11. Ysgrifennwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol gan ystyried y Safonau sydd ar ddod. Mae hynny'n golygu bod ein sefydliad mewn sefyllfa gyffyrddus, ond bod angen gwneud mân addasiadau a rhai ychwanegiadau i'r gwasanaeth Cymraeg presennol yr ydym eisoes wedi ymrwymo i'w gynnig i'r cyhoedd ac i'n staff ein hunain. Caiff yr addasiadau/newidiadau ychwanegol hyn eu nodi yn Atodiad 2 y papur hwn.

12. Ein hymateb i'r Comisiynydd, drwy'r broses ymgynghori, yw ein bod o'r farn bod yr holl Safonau ar wahân i un yn rhesymol ac yn gymesur, a'n bod yn bwriadu herio Safon 36 oherwydd y goblygiadau o ran cost ychwanegol i'r sefydliad.

13. Byddai Safon 36 yn mynnu bod ein sefydliad yn cyhoeddi yn Gymraeg yr holl ddogfennau yr ydym yn eu llunio ar gyfer y cyhoedd. Byddai hynny'n cynnwys cyhoeddi ein holl ddogfennau technegol, a gaiff eu hasesu ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r canllawiau Cyfieithu sydd gennym ar waith.

14. Rydym yn bwriadu gofyn i'r Comisiynydd ystyried bod gosod Safonau 37 – 43, sy'n ymwneud â'r un gweithgarwch, yn fwy rhesymol a chymesur na Safon 36. Byddai hynny'n golygu na fyddai ein sefydliad yn wynebu unrhyw gostau cyfieithu ychwanegol ac y byddai ein hymrwymiadau presennol o ran trefniadau cyhoeddi'n parhau yr un fath.

**<u>Argymhelliad</u>**

15. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo Adroddiad Blynyddol ynghylch y Gymraeg 15/16, a chymeradwyo ein bwriad i dderbyn Safonau drafft y Comisiynydd ond herio Safon 36 oherwydd bod y Safon yn afresymol ac yn anghymesur.

**Prif risgiau**

16. Bydd methu â llunio Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y Gymraeg yn mynd yn groes i'r ymrwymiad a wnaed yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.

17. Nid oes yn rhaid i ni ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch y Safonau os ydym yn fodlon â chynnwys yr Hysbysiad Cydymffurfio Drafft – bydd y Comisiynydd yn cyflwyno Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol ar sail yr Hysbysiadau Drafft.

**Goblygiadau ariannol**

18. Bydd y gwaith o weithredu'r Cynllun a'r Safonau sydd ar ddod yn parhau gan ddefnyddio'r cyllidebau presennol.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

19. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng nghyswllt y Cynllun Iaith Gymraeg cyn y diwrnod breinio. Byddwn yn adolygu'r Asesiad pan gaiff y Safonau eu pennu, yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu.

**Mynegai i'r Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y Gymraeg 2015/16
Atodiad 2 – Dadansoddiad o'r newidiadau a'r ychwanegiadau i'r ymrwymiadau presennol ynghylch y Gymraeg